**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**CYFARFOD BLYNYDDOL**

**16 Mehefin 2014**

**PENODI AELOD ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR SAFONAU**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

**Diben yr Adroddiad**

1 Cynnig ailbenodi un aelod annibynnol i Bwyllgor Safonau'r Awdurdod.

**Cyflwyniad**

2 Yn ystod 2003, a hynny yn unol â gofynion deddfwriaethol, fe wnaeth yr Awdurdod sefydlu Pwyllgor Safonau. Mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys chwe aelod, sef pedwar aelod annibynnol a dau sy'n aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub (y Cyng. Brian Dunn a'r Cyng. Jim Evans ar hyn o bryd).

3 Yn dilyn dyfodiad Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006, mae modd ailbenodi aelod annibynnol am gyfanswm o un cyfnod pellach, hyd at bedair blynedd. Nid oes gofyniad cyfreithiol i hysbysebu lle gwag os mai'r bwriad yw ailbenodi.

4 Yr aelod annibynnol sydd â chyfnod ei swydd yn dod i ben ym mis Awst 2014 yw David Morris ac mae eisoes wedi cadarnhau yr hoffai gael ei ailbenodi.

**Argymhelliad**

5 Bod David Morris yn cael ei ailbenodi yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau, a hynny i ddod i rym o 1af Medi 2014 ymlaen, am gyfnod o bedair blynedd.